OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2006 Rhif 1341 (Cy.132)

# ADDYSG, CYMRU

## Gorchymyn Cyngor Addysgu Cyffredinol Cymru (Swyddogaethau Ychwanegol) (Diwygio) 2006

| | | |
|---|---|---|
| *Wedi'i wneud* | - - | *16 Mai 2006* |
| *Yn dod i rym* | - - | *31 Mai 2006* |

Drwy arfer y pwerau a roddwyd i'r Ysgrifennydd Gwladol gan adrannau 7(1) a (4) a 42(6) a (7) o Ddeddf Addysgu ac Addysg Uwch 1998(**1**) ac sydd wedi'u breinio bellach yng Nghynulliad Cenedlaethol Cymru(**2**), mae Cynulliad Cenedlaethol Cymru, ac yntau o'r farn y gall Cyngor Addysgu Cyffredinol Cymru, o ystyried ei amcanion cyffredinol, gyflawni'n briodol y swyddogaethau ychwanegol a roddir drwy hyn ar ôl cyflawni unrhyw ymgynghori y mae o'r farn ei fod yn briodol, yn gwneud y Gorchymyn canlynol:

**Enwi a chychwyn**

**1.** Enw'r Gorchymyn hwn yw Gorchymyn Cyngor Addysgu Cyffredinol Cymru (Swyddogaethau Ychwanegol) (Diwygio) 2006 a daw i rym ar 31 Mai 2006.

**Diwygio Gorchymyn Cyngor Addysgu Cyffredinol Cymru (Swyddogaethau Ychwanegol) 2000**

**2.** Mae Gorchymyn Cyngor Addysgu Cyffredinol Cymru (Swyddogaethau Ychwanegol) 2000(**3**)yn cael ei ddiwygio fel a ganlyn—

(a) yn Rhan I o'r Atodlen, ym mharagraff 2 ar ôl "(c)"mewnosoder ", (3B)"; a

(b) yn Rhan II o'r Atodlen, ar ôl paragraff 20, mewnosoder—

"**20A.** Pan yw person yn athro neu'n athrawes gymwysedig sy'n anghymwys i gael ei gofrestru yn unol ag adran 3(3B) o Ddeddf 1998(**4**), (h.y. gan nad yw'r Cyngor wedi'i fodloni bod y person yn addas i fod yn athro neu'n athrawes), manylion yn nodi ar ba sail y penderfynwyd gwrthod y cais.".

(**1**) 1998 p.30. Mae'r darpariaethau perthnasol yn gymwys o ran Cyngor Addysgu Cyffredinol Cymru yn rhinwedd adrannau 8 a 9 o'r Ddeddf a Gorchymyn Cyngor Addysgu Cyffredinol Cymru 1998 (O.S. 1998/2911).

(**2**) Gweler Gorchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Trosglwyddo Swyddogaethau) 1999 (O.S. 1999/672).

(**3**) O.S. 2000/1941 (Cy.139), a ddiwygiwyd gan O.S. 2001/2497 (Cy.201) ac O.S. 2005/68 (Cy.6).

(**4**) Mewnosodwyd adran 3(3B) o Ddeddf 1998 gan baragraff 3(5) o Atodlen 12 i Ddeddf Addysg 2002 (p.32).

Llofnodwyd ar ran Cynulliad Cenedlaethol Cymru o dan adran 66(1) o Ddeddf Llywodraeth Cymru 1998(**5**)

*D. Elis-Thomas*
Llywydd y Cynulliad Cenedlaethol

16 Mai 2006

(**5**) 1998 p.38

## EXPLANATORY NOTE

*(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Gorchymyn)*

Mae'r Gorchymyn hwn yn diwygio Gorchymyn Cyngor Addysgu Cyffredinol Cymru (Swyddogaethau Ychwanegol) 2000. Mae'r Gorchymyn hwnnw'n ei gwneud yn ofynnol i Gyngor Addysgu Cyffredinol Cymru ("y Cyngor") gadw cofnodion mewn perthynas â chategorïau penodedig o bersonau. Mae'r Gorchymyn hwn yn ychwanegu at y categorïau hynny bersonau sy'n anghymwys i'w cofrestru oherwydd nad yw'r Cyngor yn fodlon eu bod yn addas i fod yn athrawon. Mae hefyd yn ei gwneud yn ofynnol i'r Cyngor gynnwys manylion yn ei gofnodion yn nodi ar ba sail y penderfynwyd nad yw person yn addas i fod yn athro neu'n athrawes.